**12.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **46C160M** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Richard Tuke**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Cais llawn i gynyddu nifer y carafannau teithiol o 20 i 36 ynghyd a chreu trac mynedfa newydd a gwella'r lôn bresennol i'r safle yn

Full planning application to increase the number of touring caravans form 20 to 36 together with the formation of a new access track and upgrading the existing main site road at

Ddraenan Ddu, Penrhosfeilw, Holyhead



Cyngor Cefn Gwlad Cymru - dim ateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cynghorydd Amgylcheddol – plannu a rheoli sgrwb i greu mosaig cynefin yn cael ei groesawu. Cyngor yn cael ei roi ynglŷn â dull ac amseriad y gwaith clirio sgrwb.

Adain Ddraenio – yn gofyn i'r ymgeisydd gadarnhau bod digon o gapasiti yn y tanc septig i dderbyn y llwyth ychwanegol.

Adain Priffyrdd - dim ateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dwr Cymru-Welsh Water - dim ateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Ymateb y Cyhoedd i'r Ymgynghoriad – ni dderbyniwyd yr un sylw ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

46C160C – Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i leoli carafanau teithiol a phebyll: Caniatawyd ar apêl 20/3/02

46C160D – Tystysgrif Cyfreithlondeb i ddefnyddio tir i storio 40 o garafanau teithiol o 31 Hydref i 1 Mawrth a lleoli carafan barhaol i ddarparu cyfleusterau toiled a chawod yn Ddraenan Ddu, Penrhosfeilw – Gwrthodwyd 6/5/03

46C160E - Cais i ymestyn y tymor gwersylla o 1 Ebrill - 30 Medi i 1 Mawrth - 4 Ionawr yn Y Ddraenan Ddu, Penrhosfeilw - Tynnwyd yn ôl 22/2/08

46C160G - Cais i ymestyn y tymor gwersylla o 1 Ebrill – Medi 30 i 1 Mawrth – 31 Hydref yn Y Ddraenan Ddu, Penrhosfeilw – caniatau 13/1/09

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae safle'r cais hwn wedi'i leoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae hwn yn ddynodiad statudol sy'n cydnabod ei bwysigrwydd o ran ansawdd y dirwedd ac mewn termau cadwraeth natur.

Prif amcan y dynodiad AHNE yw cadw a gwella eu harddwch naturiol. Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi sylw i bwrpasau AHNE a dylai unrhyw benderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio'r AHNE fod yn bleidiol i gadw eu harddwch naturiol yn y lle cyntaf.

Safle dymhorol ar gyfer carafannau teithiol gyda lle a gyfyngwyd i bebyll a sicrhawyd trwy dystysgrif defnydd cyfreithlon yw'r safle hwn. Mae'r gweithredwyr hefyd yn manteisio ar hawliau datblygu a ganiatawyd ar gyfer gwersylla mewn pebyll o dan Dosbarth B o Rhan 4 o Atodlen 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995 (fel ei diwygiwyd). Mae'n amheus a fyddai caniatad cynllunio wedi cael ei roi i gais i ddatblygu yn y lle uchel amlwg ac anghysbell hwn o fewn yr AHNE. Er hynny, y mae'n gyrchfan sy'n bodoli i dwristiaid ac yn cael ei ddefnyddio fel safle gwyliau.

Mae'r carafanau teithiol wedi'u lleoli islaw'r grib lle mae'r annedd ond maent i'w gweld yn rhannol o fewn y tirlun ehangach. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn yr Astudiaeth Effaith Weledol a'r Tirlun.

Mae Polisi 12 o'r Cynllun Lleol yn caniatáu ymestyn safleoedd teithiol presennol yn amodol ar feini prawf sy'n cynnwys yr un sy'n dweud na ddylai datblygiad niweidio edrychiad yr ardal. Mae Polisi CH5 o Gynllun Fframwaith Gwynedd yn gosod angen nad yw mor llym sef y dylai cynigion weddu i mewn yn anymwthiol i'r tirlun. Mae Polisi TO6 o'r CDU a stopiwyd yn caniatau estyniadau i safleoedd yn amodol ar yr angen llai nad ydynt yn achosi niwed annerbyniol i'r dirwedd. Mae'r tri pholisi yn derbyn yr egwyddor o estyniadau i safleoedd nad ydynt, yn annhebyg i estyniadau safle carafanau parhaol, wedi'u cyfyngu yn nhermau canrannol, oherwydd bod nifer o safleoedd carafanau teithiol trwy natur yn nodweddion dros dro nad ydynt yn cael effaith barhaol trwy'r flwyddyn ar yr amgylchedd lleol.

Yn cydbwyso hyn oll y mae'r gofynion polisi i ddiogelu a gwella'r AHNE.

Nid oes ar y safle presennol ddim ond tirlunio a sgrinio sy'n digwydd yn naturiol gan na ellid rhoddi unrhyw amodau ar y dystysgrif o ddefnydd cyfreithlon na datblygiad oedd yn gofyn am y fath welliannau. Y mae yn cael effaith ar yr AHNE pan fo'n cael ei ddefnyddio fel safle i garafannau teithiol. Mae'r cynigion yn cadw'r unedau teithiol i raddau helaeth o fewn yr ardal a ganiatawyd o dan y dystysgrif a bydd rhai o'r unedau i'w gweld o rai mannau yn y dirwedd o amgylch, ond nid yw'n safle sydd i'w weld o'r holl ffyrdd cyhoeddus yn yr ardal e.e. oherwydd y topograffi, efallai y bydd rhai unedau i'w gweld o rai llefydd ond nid yw'r safle i gyd i'w weld. Mae'r cais yn bwriadu tirlunio'r safle gan ddefnyddio rhywogaethau cynhennid i greu bwffers i'r golygfeydd hyn ac yn gyffredinol, ystyrir bod hyn yn gwella'r sefyllfa bresennol ac yn gwella edrychiad yr AHNE. Efallai y bydd gwaith rheoli'r safle hefyd o fantais i'r cynefin presennol.

Bwriedir gosod amod yn dweud bod yn rhaid i'r gwaith tirlunio gael ei gwblhau cyn bod unrhyw garafannau ychwanegol yn dod ar y safle.

**7. Casgliad**

Ystyrir nad yw'r cynigion yn achosi niwed annerbyniol i'r dirwedd a gyda'r gwaith tirlunio a fwriedir fe all doddi i mewn i'r AHNE, gan wella edrychiad y safle yn gyffredinol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau'r** cynigion gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Ni cheir lleoli unrhyw garafannau teithiol a ganiateir yma ar y safle hyd nes y bo'r gwaith tirlunio y manylir arnynt yn y dyluniadau rhifau 1774/02 Adolygiad B (Cynllun Meistr Tirlunio) a 1774/04 (Adrannau Tirlunio) ac sy'n rhan o'r cais fel ei cyflwynwyd, wedi'u cwblhau.**

Rheswm: I ddiogelu mwynderau gweledol yr ardal sydd wedi'i dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**(03) Rhaid gwneud y gwaith clirio sgrwb y manylir arno yn yr Astudiaeth Effaith Tirlun a Gweledol (Grŵp Appleton Ionawr 2011), gan ddefnyddio twls llaw ac ni cheir gwneud y gwaith ond rhwng 1 Medi ac 1 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn.**

Rheswm: I ddiogelu unrhyw rywogaethau a ddiogelir all fod yn bresennol ar y safle.

**(04) Ni chaniateir lleoli'r carafanau teithiol (na fydd yn fwy na 36 mewn nifer) a phebyll (na fyddant yn fwy na 6 mewn nifer) o fewn yr ardal a ddangosir mewn coch ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn diffinio maint y caniatad ac er lles mwynderau'r lleoliad.

**(05) Ni chaniateir defnyddio'r ardal a ddangosir mewn coch ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y caniatad hwn ond fel safle carafanau teithiol a safle wersylla pebyll rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn a rhaid symud ymaith yr holl garafannau a'r pebyll o'r safle cyn 1 Tachwedd mewn unrhyw flwyddyn ac ni cheir eu lleoli ar y safle cyn 1 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn.**

Rheswm: Er mwyn diffinio natur y caniatad hwn ac er lles mwynderau'r ardal.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

